
# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu


**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith a Phensiynau




Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth a ddewiswyd o **www.gov.uk** ar 2 Mai 2018. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein. Mae'r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arno fel datganiad llawn o'r gyfraith yn y maes hwn.




## Cynnwys



| | |
|---|---|
| Arolwg | 3 |
| Yr hyn a gewch | 3 |
| Cymhwyster | 4 |
| Sut i wneud cais | 5 |


Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio’r testun a gymerwyd o **www.gov.uk** ar 2 Mai 2018.

© Hawlfraint y Goron.

ISBN 978-1-78659-059-6

**DWP19W** (Mai 2018)



**Codau QR**

Dyma godau bar sgwâr sy’n agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio cyfeiriadau gwe hir.

Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar.

## Arolwg

www.gov.uk/income-support/overview

Gallech gael Cymhorthdal Incwm os ydych yn bodloni'r holl amodau penodol.

Mae'r union swm a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau, ond os ydych yn gymwys ac nad oes gennych incwm byddwch yn gael o leiaf £57.90 yr wythnos.

Gallwch hawlio Credyd Treth Plant os ydych yn hawlio Cymhorthdal Incwm a bod gennych blant.

## Yr hyn a gewch

www.gov.uk/income-support/what-youll-get

Gallwch gael:

- taliad sylfaenol (lwfans personol)
- taliadau ychwanegol (premiymau)

Gall eich incwm ac unrhyw gynilion (dros £5,999) effeithio ar faint y gallwch ei gael.

### Cyfradd Uwch

Gallech gael y gyfradd uwch os yw un ohonoch yn gyfrifol am blentyn, neu os byddai pob un ohonoch yn gymwys i gael un o'r canlynol os nad oeddech yn gwpl:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith

### Premiymau

Gallech hefyd gael 'premiwm' Cymhorthdal Incwm – arian ychwanegol yn dibynnu ar eich amgylchiadau, e.e. os ydych yn bensiynwr, yn anabl neu'n ofalwr.

Defnyddiwch gyfrifiannell budd-daliadau i weithio allan faint y gallwch ei gael. Cewch ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/benefits-calculators**

**Sut y cewch eich talu**

Fel arfer gwneir taliadau bob pythefnos.

Telir pob budd-dal, pensiwn a lwfans i mewn i gyfrif, e.e. cyfrif banc.

Mae'r cap ar fudd-daliadau yn cyfyngu ar faint o fudd-dal y gall y rhan fwyaf o bobl rhwng 16 a 64 oed ei gael. Nid yw rhai budd-daliadau unigol yn cael eu heffeithio, ond gallai effeithio ar gyfanswm y budd-dal a gewch.

## Cymhwyster

www.gov.uk/income-support/eligibility

I fod yn gymwys ar gyfer Cymhorthdal Incwm, rhaid i chi fod rhwng 16 ac oed cymhwyso Credyd Pensiwn.

Rhaid i'r holl o'r canlynol hefyd fod yn berthnasol i chi (a'ch partner os oes gennych un):

- nid oes gennych incwm neu incwm isel, a dim mwy na £16,000 mewn cynilion
- nid ydych mewn gwaith â thâl llawn amser (gallwch weithio llai na 16 awr yr wythnos, a gall eich partner weithio llai na 24 awr yr wythnos)
- nid ydych chi'n gymwys am Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- rydych chi'n byw yng Nghymru, Lloegr, neu yr Alban - mae yna reolau gwahanol ar gyfer Gogledd Iwerddon

Rhaid i chi hefyd fod o leiaf yn un o'r canlynol:

- beichiog
- yn riant unigol (gan gynnwys rhiant maeth unigol neu riant mabwysiadol) gyda phlentyn dan 5 oed
- yn ofalwr
- ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu riant
- yn methu â gweithio a'ch bod yn derbyn Tâl Salwch Statudol, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol (neu yn apelio yn erbyn penderfyniad ynglŷn â gallu i weithio ar gyfer y budd-daliadau hyn)
- mewn addysg llawn amser (nid prifysgol), rhwng 16 ac 20 oed, ac yn riant

- mewn addysg llawn amser (nid prifysgol), rhwng 16 ac 20 oed, a ddim yn byw gyda rhiant neu rywun sy'n gweithredu fel rhiant
- yn ffoadur yn dysgu Saesneg - mae'n rhaid i'ch cwrs fod o leiaf 15 awr yr wythnos, a rhaid i chi ddechrau arni o fewn 12 mis o ddod i mewn i'r DU
- yn y ddalfa neu'n disgwyl mynd i lys neu dribiwnlys

Nid oes angen cyfeiriad parhaol arnoch - er enghraifft, gallwch chi wneud cais os ydych chi'n:

- cysgu ar y stryd
- byw mewn hostel neu gartref gofal

Ni allwch gael Cymhorthdal Incwm a Chredyd Cynhwysol ar yr un pryd.

## Sut i wneud cais

www.gov.uk/income-support/how-to-claim

Y ffordd gyflymach i wneud cais am Gymhorthdal Incwm yw dros y ffôn.

**Ceisiadau newydd am fudd-dal**

Y Ganolfan Byd Gwaith – ceisiadau newydd
Ffôn: 0800 012 1888
Ffôn testun: 0800 023 4888
Llinell Saesneg: 0800 055 6688

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

Gallwch hefyd wneud cais drwy'r post drwy anfon ffurflen gais i'ch Canolfan Byd Gwaith leol.

Gallwch wneud cais am Gymhorthdal Incwm ar eich cyfer chi a'ch partner, os nad ydynt wedi gwneud cais yn barod.

Bydd angen i chi ddarparu manylion am y canlynol:

- eich incwm
- incwm unrhyw bartner
- lle rydych yn byw
- pwy sy'n byw gyda chi

**Hysbysu newid mewn amgylchiadau**

Mae angen i chi hysbysu newidiadau i'ch amgylchiadau fel eich bod yn dal i gael y swm cywir o Gymhorthdal Incwm.

Efallai y bydd eich hawl yn cael ei atal neu ei leihau os na fyddwch yn hysbysu newid ar unwaith.

Gall newid amgylchiadau gynnwys:

- dechrau neu roi'r gorau i waith, addysg, hyfforddiant neu brentisiaeth
- symud tŷ
- pobl sy'n symud i mewn neu allan o'r lle rydych chi'n byw (er enghraifft, eich partner neu blentyn)
- newid eich enw
- newidiadau i'r budd-daliadau rydych chi neu unrhyw un arall yn eich tŷ yn ei gael
- newidiadau i arian arall a gewch (er enghraifft benthyciadau myfyrwyr neu grantiau, tâl salwch neu arian a gewch gan elusen)
- newidiadau i'ch pensiwn, cynilion, buddsoddiadau neu eiddo
- mynd i'r ysbyty neu gartref gofal neu lety gwarchod
- mynd dramor am unrhyw gyfnod o amser

Ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi hysbysu newid.

Efallai y cewch eich erlyn neu gorfod talu cosb o £50 os ydych chi'n rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, neu os nad ydych yn hysbysu newidiadau ar unwaith.

## Sut i hysbysu

Gallwch chi  hysbysu newid amgylchiadau trwy:

- ffonio llinell gymorth y Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer hawliau budd-dal presennol
- ysgrifennu at swyddfa'r Ganolfan Byd Gwaith sy'n talu'ch Cymhorthdal Incwm - mae'r cyfeiriad ar y llythyrau a gewch am eich Cymhorthdal Incwm.

Y Ganolfan Byd Gwaith – ceisiadau presennol
Ffôn: 0345 600 3018
Ffôn testun: 0345 608 8551
Llinell Saesneg: 0345 608 8545

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

## Os ydych chi wedi cael eich talu gormod

Os na fyddwch yn hysbysu  newid ar unwaith neu os ydych chi'n rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, efallai y cewch chi eich talu ormod o arian. Os ydych chi, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhywfaint o'r arian yn ôl.

## Os ydych yn anghytuno gyda phenderfyniad

Gallwch herio penderfyniad am eich cais. Gelwir hwn yn gofyn am ailystyriaeth orfodol.